**Pwyllgor Canolbarth Rhanbarth Cymru**

**Cyngor Sir Ceredigion**

Mae llythyr o wahoddiad oddi wrth Swyddfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n sôn am y cyfuno a fu ar Fwrdd Datblygu Cymru Wledig i mewn i Awdurdod Datblygu Cymru ym 1998. Y geiriau "i mewn" sy’n bwysig yn hyn o beth achos yn y Canolbarth gwelwyd y cyfuno fel rhywbeth a ddigwyddodd rhwng Bwrdd Datblygu Cymru Wledig a’r WDA.

Ystyrid y Bwrdd Datblygu’n gynghreiriad cryf o ran datblygu economaidd sy’n briodol i ardal wledig y Canolbarth. Mae’n debyg fod yr agwedd hon yn un llai cyfarwydd i’r WDA y pryd hynny. Gobeithiem y bydd yr Awdurdod yn dal i ledaenu cyfleoedd datblygu drwy’r Sir fel bo angen. Rydym yn falch i weld bod agwedd y Bwrdd at ddatblygu cymdeithasol ar gymunedau lleol yn cael ei pharhau gan yr Awdurdod yn ei Bolisi Adfywio Cymunedau.

Yn yr ardaloedd gwledig mae nifer o ffactorau’n achosi difreiniad cymdeithasol ac economaidd ac nid oes atebion hawdd am wnaiff unioni’r amrywiol broblemau gwaelodol. Mae adfywio cymunedau’n golygu hunan-gymorth a chwilio am atebion i broblemau lleol ar lawr gwlad, mae’n ffordd bositif ymlaen ar y cyd rhwng partneriaid ond mae angen llawer o ymroddiad a chyllido tymor hir os yw am weithio. Mae hyn yn cynnwys lefel o gefnogaeth o ran cyllid ac ymroddiad gwleidyddol o du’r asiantaethau datblygu a’r awdurdod lleol. Bydd dyletswydd ar y Cyngor Sir i lunio Strategaeth Gymunedol a dylai’r holl gyrff sy’n bartneriaid sydd ag agenda o adfywio cymunedau rannu eu hadnoddau a chyd-dynnu i wneud y gorau o’r cyfleoedd dan Flaenoriaeth 3 o Amcan 1.

Mae’r WDA yn ei chael hi’n anodd a phrin fu ei lwyddiant o ran denu unrhyw fuddsoddwyr sylweddol o’r tu allan i Geredigion er bod Cybercall a Chaws Dyffryn Aeron yn eithriadau nodedig. Teimla’r Cyngor nad yw pethau’n debygol o newid yn y dyfodol agos oni allwn gynnig safleoedd da gyda gwasanaethau arnynt, sy’n ddigon deniadol i gwmnïau brodorol a rhai o’r tu allan. Rydym yn bryderus yng Ngheredigion y bydd y cyflenwad tir, sy’n ymwneud â’r galw a’r ymateb yn unig, yn ein gwneud ni’n anghystadleuol o gymharu â’r ardaloedd haws eu cyrraedd sydd â digon o safleoedd tir brown a dyraniadau tir. Dylai agwedd fwy hyblyg a gweithredol at ddatblygu ddilyn yn sgil cynllun Amcan 1 yng ngorllewin Cymru. Prin yw’r cyfleoedd i ddatblygu buddsoddiant cyhoeddus/preifat, a phan fyddant yn ymddangos yng Ngheredigion caiff ein hawydd i ymateb yn gyflym ac yn bositif ei lesteirio gan ddiffyg cyllid ac adnoddau i roi cyfeiriad a hyder i’r prosiect. Mae swyddfeydd newydd y WDA yn Y Lanfa, Aberystwyth yn symudiad positif gan yr Awdurdod, ond fel corff, mae’n dal i gael ei weld fel corff sydd wedi ei ganoli yng Nghaerdydd, a gall prosiectau newydd a chynigion busnes newydd gael eu rhwystro gan y diffyg adnoddau a roddir i Isadran y Canolbarth. Mae gennym brosiectau cynhyrfus iawn ar y

gweill yn y sir hon ac wrth reswm bydd adnoddau Amcan 1 yn gymorth o ran gwireddu eu potensial. Yn anffodus, nid yw'r adnoddau Ewropeaidd wastad yn denu cyllid ychwanegol i'r isadran neu'r rhanbarth.

Mae'r Awdurdod wrthi'n weithgar yn chwilio am safleoedd strategol addas i'w datblygu yn ardaloedd Aberystwyth ac Aberteifi, a gobeithir y bydd gwaith y mae Partneriaeth y Canolbarth yn ei wneud o ran asesu tir cyflogaeth yn rhoi cyfrif am y trefi allweddol eraill yn y Sir - e.e. Llambed, Tregaron a Llandysul. Mae angen i'n trefi a'n pentrefi mwyaf gynnig cyfleoedd gwaith i gynnal cymunedau lleol ffyniannus. Hoffem weld yr Awdurdod yn canolbwyntio - yn sicr ar safleoedd strategol, ond hefyd ar ledaenu buddsoddiant ar draws ardaloedd gwledig y sir.

Tyfodd poblogaeth Ceredigion 7.8% y llynedd a hon yw'r Sir sy'n tyfu gyflymaf yn y Gymru wledig ac yn ail i Gaerdydd yn unig. Yn rhyfedd ddigon mae'r cyfraddau diweithdra wedi bod yn gostwng yn unol â'r duedd genedlaethol ac mae gennym gyfradd o 3.5% a 1,150 o bobl yn ddi-waith. Mae recriwtio a chadw staff yn y sector cyhoeddus a phreifat yn dechrau mynd yn broblem o ran swyddi medrus a maniwal. Mae gan y Sir enw da ym maes addysg, ond yn anffodus mae hyn yn arwain at golli talent a sgiliau'r ifanc i ardaloedd mwy llewyrchus sy'n cynnig cyfleoedd o ran swyddi a hamdden. Mae'r cymhelliant i aros neu i ddychwelyd yn ddiweddarach yn dibynnu ar swyddi da. Mae hyn yn esbonio pam mae cymaint yn gorfod ystyried hunan-gyflogaeth fel gyrfa. Mae'n debyg bod grantiau menter a chefnogi hyfforddiant yn fwy hanfodol mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion.

Cynigir cefnogaeth i fusnesau'n effeithiol iawn drwy gonsortiwm partneriaid Cyswllt Busnes, ond gwasanaeth sy'n ymateb i gleientiaid ydyw yn ei hanfod. Gallai ac fe ddylai Cyswllt Busnes fynd law yn llaw ag agwedd fwy gweithredol a fyddai'n gweithio dan drefniadau partneriaeth tebyg. Mae enghreifftiau da yng Ngheredigion o'r Isadran a'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol, er enghraifft;

Cynlluniau i wella amgylchedd canol trefi

Prosiectau datblygu megis yn Aber-porth

Mentrau adfywio cymunedau, Menter y Trefi Marchnad

Nodi a darparu tir ar gyfer datblygu yn Aberteifi ac Aberystwyth.

Mae darparu cymdeithas wybodaeth gystadleuol yn debygol o ddylanwadu ar ffyniant y rhanbarth at y dyfodol yn fwy nag unrhyw fuddsoddiant arall. Ar y cyd â'i bartneriaid yn y fforwm economaidd rhanbarthol mae'r Cyngor yn hollol ymroddedig i ddatblygu prosiect MARAN - Y Rhwydwaith Gwledig Amlasiantaethol, a fydd yn cynnig lled band digonol ac yn rhannu defnydd a mynediad ar y rhyngrwyd. Mae'r cost sefydlu'n uchel ond ni ellir osgoi hynny os ydym am sicrhau economi a all gystadlu â rhanbarthau eraill. Oherwydd y costau uchel mae

angen adnoddau gan yr holl bartneriaid gan gynnwys y Cynulliad.

O ystyried datblygiadau TGC nid yw pethau'n fêl i gyd a dylem ddeall fod ochr arall i'r geiniog. Yn ogystal â'r effaith gyffredinol ar wasanaethau lleol a phrynu nwyddau, mae pryder cyffredinol yngln â'r ddarpariaeth addysgol tymor hir yn yr ysgolion, y colegau a'r prifysgolion. Fe ymhelaethaf. Mae cost uchel addysg uwch, a benthyciadau a dyledion myfyrwyr cyn uched â £10,000 ar ôl 3 blynedd yn y brifysgol ynghyd â'r chwyldro mewn dysgu o bell yn creu anawsterau difrifol o ran recriwtio yn y colegau addysg uwch sy'n bell o'r canolfannau poblog. Fe gaiff y manteision ariannol o fynd i'r brifysgol leol ynghyd â dysgu o bell trwy TGC effaith, ac mae'r effaith ddilynol ar sefydliadau sydd ar yr ymylon yn amlwg.

Wrth ystyried y materion ymylol peidied ag anghofio'r rôl bwysig sydd gan gludiant, boed hynny ar y ffordd, y rheilffordd neu hyd yn oed yr awyr, ar yr economi lleol. Nid fu unrhyw raglenni buddsoddi, moderneiddio na gwella ar ein hasedau cyfalaf ym maes cludiant yng Ngheredigion. Fe dalodd Grant Menter Cludiant y Cynulliad ar gyfer ffordd gyswllt de Ceredigion, tua £500,000 i gyd, am beth o'r gwaith dylunio dechreuol ond rydym yn dal i ddisgwyl yn eiddgar am y cynllun cyntaf ar y briffordd. Mae maes awyr DERA ger Aber-porth yn enghraifft arall o seilwaith na ddefnyddir digon arno, dylid rhyddhau'r adnodd hwn a'i ddatblygu ar y cyd â pharc busnes a fyddai'n gyd-fenter gyhoeddus a phreifat ar gyfer de Ceredigion, ond yn aml bydd angen cefnogaeth lawn y WDA a'r Cynulliad ar gyfer prosiectau fel hyn.

Mentrau newydd a rhai sy'n ehangu, ac yr un mor bwysig, lefel cyflogau'r gweithlu sy'n creu cyfoeth, ffyniant a lles ar gyfer y gymuned leol. Mae gallu Ceredigion i greu cyfoeth, trwy enillion a chyflogau'n cael ei erydu'n araf, er enghraifft

a) Caiff yr economi lleol yng Ngheredigion fudd mawr o'r sefydliadau cyhoeddus - y ddwy brifysgol, y Llyfrgell Genedlaethol, yr ysbyty a'r Cyngor ymhlith eraill, amcangyfrifir bod gweithwyr yn y sector cyhoeddus bron yn 1/3 o'r gweithlu lleol. Ers 1995, mae'r cyflog blynyddol cyfartalog yn y sector cyhoeddus wedi cynyddu 10% yn llai na'r twf cymharol yn y sector preifat ac mae'r sefydliadau hyn yn wynebu moderneiddio ac ailstrwythuro yn eu hadnoddau llafur.

b) Ar hyn o bryd o leiaf mae'r Sir yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar y diwydiant amaethyddol fel un o gonglfeini'r economi lleol, ond a incwm net ffermydd yn cwympo o 50% ym 1998-9 a 25% yn rhagor ym 1999-2000, mae'r cyflogau cyfartalog bellach yn £4,500. Caiff hyn effaith sylweddol ar ddosbarthiad cyfoeth yn yr ardaloedd gwledig ac yn y trefi marchnad.

c) Mae pethau'n debyg yn y sector twristaidd, diwydiant sydd yn ei hanfod yn oriog a'r staff yn dymhorol ac ar gyflogau isel a sgiliau'n isel hefyd.

Mae wastad yn anodd mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion i sefydlu mentrau sy'n creu cyfoeth ar sylfaen economaidd mor isel. Yn y gorffennol rydym wedi canolbwyntio ar fuddsoddi mewn cwmnïau newydd bychain gan adael i'r Awdurdod Datblygu farchnata a datblygu safleoedd mwy strategol a chyfleoedd buddsoddi. Mae diwylliant entrepreuneraidd cudd i'w gael yng Ngheredigion ond mae'r diffyg cyllid a chyfleoedd i'r cwmnïau newydd yma ehangu a datblygu'n rhwystr mawr i dwf yn yr ardal. Y gynnen fwyaf sydd gennym yng Ngheredigion, er y diwylliant mentro newydd yma, y diwylliant o bartneriaeth a'r diddordeb mewn mentrau sydd wedi eu seilio ar bobl, yw fod y diffyg cyllid yn golygu bod amheuon cryf o hyd nad yw'r hyn sy'n cael ei bregethu am ledaenu ffyniant i'r ardaloedd ymylol wastad yn cael ei roi ar waith. Nid oes tystiolaeth ei fod yn digwydd ar hyn o bryd ac mae'r rheithgor yn dal mas.

Un o brif wendidau'r polisïau datblygu economaidd cyfredol yn yr ardaloedd ymylol yw'r sail fregus sy'n bodoli o ran y trefniadau cyllido ar gyfer y rhanbarthau hyn. Byddem yn argymell lefel o gefnogaeth wahaniaethol a fyddai'n gwahaniaethu'n gadarnhaol er mwyn unioni'r anfanteision. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod y gwahaniaethau hyn o ran angen economaidd a gofynnwn i eraill ddilyn yr enghraifft hon.

**Cyng E. J. K. Evans**

**Aelod Cabinet**

**Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Hyfforddiant a Materion Ewropeaidd**